# Dewis ceffylau a nodi eu haddasrwydd ar gyfer dibenion penodol

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â dewis ceffylau a nodi eu haddasrwydd ar gyfer dibenion penodol, a allai fod ar gyfer magu neu berfformiad.

Mae'n cynnwys adnabod y nodweddion sydd eu hangen ar gyfer perfformiad llwyddiannus mewn disgyblaeth ddewisol. Mae hyn yn cynnwys ystyried bridiau, tras a chofnodion perfformiad. Mae hefyd yn gofyn am asesu cydymffurfio sefydlog a deinamig, mewn perthynas â'r ddisgyblaeth ddewisol, a'r gallu i ffurfio barn am addasrwydd a photensial ceffyl.

Bydd angen i chi fod yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd iechyd a lles anifeiliaid ac iechyd a diogelwch mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn.

Bydd angen i chi sicrhau eich diogelwch eich hun ac eraill, a lles y ceffylau, yr holl amser.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. asesu peryglon a rheoli risg i geffylau, chi eich hun ac eraill mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn
2. sefydlu a chadarnhau y dibenion penodol a fwriedir ar gyfer y ceffyl
3. cadarnhau unrhyw ofynion penodol ar gyfer y ceffyl
4. nodi addasrwydd cael ac asesu gwybodaeth fagu a chofnodion ar gyfer y ceffyl yr ydych yn ei ystyried
5. gwirio neu amcangyfrif oed y ceffyl
6. sefydlu a gwerthuso perfformiad, natur a phrofiad
7. gwneud gwerthusiad o gydymffurfiad sefydlog y ceffyl yn erbyn gofynion penodol
8. gwneud gwerthusiad o gydymffurfiad deinamig y ceffyl yn cynnwys osgo, cydbwysedd a symudiad
9. nodi unrhyw ddiffygion a thrafod eu goblygiadau gydag unigolion perthnasol
10. pennu'r dull mwyaf addas o sefydlu cadernid ac iechyd y ceffyl
11. asesu potensial, addasrwydd a gwerth y ceffyl yn erbyn gofynion, a gwneud dewis
12. sicrhau bod cofnodion priodol yn cael eu cynnal a'u storio yn unol â gofynion deddfwriaeth berthnasol a'r sefydliad yr ydych yn gweithio iddo

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. y peryglon i geffylau, chi eich hun ac eraill a sut y gellir rheoli'r rhain
2. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer iechyd a lles anifeiliaid ac iechyd a diogelwch perthnasol.
3. sut a pham y mae rhai bridiau a mathau yn addas at ddibenion penodol
4. pwysigrwydd a goblygiad achres
5. rôl y cronfeydd data magu a pherfformiad
6. sut i roi oedran ar geffyl
7. gweithdrefnau cofrestru, hunaniaeth ceffyl a phasbortau
8. y gwahaniaethau o ran cydymffurfio â rolau gwaith amrywiol
9. goblygiadau cydymffurfio gwael ac anffurfiadau esgyrn
10. goblygiadau pedoli a chydbwysedd carnau
11. asesu cydymffurfio sefydlog a deinamig, yn cynnwys heneiddio
12. y berthynas rhwng anatomeg ysgerbydol, cyfansoddiad cyhyrol a chadernid y ceffyl
13. amodau gwerthu a gwarantau pan fydd ceffylau'n cael eu prynu
14. yr archwiliadau milfeddygol ar gyfer prynu, pelydr X a phrofion gwaed
15. y meysydd o'r gyfraith sy'n gysylltiedig â phrynu a gwerthu ceffylau
16. gofynion ac argymhellion yswiriant
17. pwysigrwydd rhoi cyngor cywir a chanlyniadau camgymeriadau
18. pwysigrwydd sefydlu a chadw cofnodion

## Geirfa

Gallai'r gofynion penodol ar gyfer y ceffyl gynnwys taldra, lliw, rhyw, ac ati.

LANEq402

Dewis ceffylau a nodi eu haddasrwydd ar gyfer dibenion penodol

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANEq402 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Rheolwr Ceffylau |
| **Cyfres/Set** | Ceffylau |
| **Geiriau Allweddol** | ceffylau; ceffyl; adnabod; tasgau |